



## Nodiadau canllaw a wybodaeth berthnasol – ymholiadau £2.50

**Dylid gwneud sieciau ac archebion post yn daladwy i 'DVLA, Abertawe'. Ni allwn dderbyn sieciau sydd wedi'u difrodi neu wedi'u newid. Os ydych yn anfon siec sydd wedi'i difrodi neu wedi'i newid, bydd eich cais yn cael ei wrthod a'i ddychwelyd atoch. Peidiwch ag anfon arian parod. Anfonwch y ffurflen hon ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth ychwanegol a'r ffi briodol i: DVRE, DVLA, Abertawe, SA99 1AJ.**

Efallai y bydd copi o'r cais hwn yn cael ei roi i'r ceidwad cofrestredig os ydynt yn gofyn amdano.

Os ydych chi'n prosesu neu storio unrhyw wybodaeth bersonol yn electronig, mae'n rhaid ichi gael rhif cofrestru diogelu data. Am ragor o wybodaeth ar sut i gael y rhif, ewch i wefan y Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)

**Am ganllawiau ar sut i ofyn am wybodaeth gan DVLA, gweler y MIS546W 'Rhoi gwybodaeth i bobl o'n cofnodion cerbyd' yn [www.gov.uk/government/publications/giving-people-information-from-our-vehicle-record.cy](http://www.gov.uk/government/publications/giving-people-information-from-our-vehicle-record.cy).**

Os ydych eisiau gwybodaeth am unigolyn a enwyd neu hanes gerbyd, defnyddiwch ffurflen V888/2BW.

### Mwy nag un cais

Os ydych chi'n gwneud mwy nag un cais am wybodaeth, gallwch chi anfon, ar bapur pennawd cwmni, rhestr â hyd at 15 cerbyd ar bob tudalen. Rhaid ichi ddarparu y gwneuthuriad a'r model, dyddiad y digwyddiad a'ch rhif cyfeirnod ar gyfer pob cerbyd. Rhaid cynnwys ffi o £2.50 am bob cerbyd.

### Gwasanaeth electronig

Os ydych chi'n gwneud ceisiadau am wybodaeth yn aml, efallai y dylech ystyried defnyddio'r gwasanaeth electronig. I gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch [kadoe-interest@dvla.gov.uk](mailto:kadoe-interest@dvla.gov.uk).

Defnyddiwch INC DU a PHRIFLYTHRENNAU wrth lenwi'r adrannau isod a dros y dudalen

## 1. Manylion y cwmni

Enw'r cwmni:

Enwau masnachu eraill (os yn berthnasol):

Cyfeiriad (nid cyfeiriad Blwch Swyddfa'r Post):

Cod post:

Rhif ffôn cyswllt:

Cyfeiriad e-bost:

Gall y manylion a ddarparwyd cael eu defnyddio i gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

Rhif cofrestru diogelu data:

Dyddiad dod i ben:

Os yw'r cyfeiriad sy'n gysylltiedig a'ch rhif cofrestru diogelu data yn wahanol i'r un a nodwyd ar wefan yr ICO, neu os nad oes gennych rif cofrestru diogelu data, rhaid ichi ddarparu tystiolaeth o'ch cyfeiriad presennol. Er enghraifft, ar bapur pennawd cwmni neu anfoneb. Os nad ydych yn darparu tystiolaeth, ni fyddwn yn gallu delio gyda'ch cais a byddwn yn ei ddychwelyd atoch.

Rhif Tŷ'r Cwmniau (os yn berthnasol):

Eich rhif cyfeirnod (os yn berthnasol):

## 2. Manylion y cerbyd rydych chi am gael gwybodaeth amdano

Rhif cofrestru cerbyd:

Gwneuthuriad a model (os yn anhysbys, esboniwch pam):

Yr union ddyddiad y digwyddiad:

Nodwch pa wybodaeth sydd ei hangen, pam rydych chi ei hangen a sut rydych chi'n mynd i'w defnyddio.

Parhewch ar dudalen arall os oes angen.

